# THEATR CYMRU

**Swydd:** Rheolwr Cynhyrchu Cynorthwyol

**Pecyn Recriwtio**




## Annwyl ymgeisydd

Diolch am eich diddordeb yn y swydd **Rheolwr Cynhyrchu Cynorthwyol** gyda Theatr Cymru. Dyma gyfle cyffrous i ymuno â'r cwmni am gyfnod o flwyddyn o fis Tachwedd 2026.

Mae Theatr Cymru yn creu gwaith theatrig uchelgeisiol sy'n adlewyrchu Cymru gyfoes ac yn cysylltu â chynulleidfaoedd ledled y wlad a thu hwnt. Yn ogystal â chynhyrchu gwaith o safon uchel ar gyfer llwyfannau amrywiol, rydym yn ymrwymedig i feithrin talent, datblygu artistiaid, a chreu cyfleoedd i fwy o bobl gymryd rhan yn y celfyddydau.

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae ein gwaith wedi parhau i esblygu, gyda ffocws cryf ar hygyrchedd, cynhwysiant a chynaliadwyedd ym mhob agwedd ar ein gweithgareddau. Rydym yn gweithio i sicrhau bod ein prosesau a'n cynyrchiadau yn croesawu ystod eang o leisiau a phrofiadau, gan gymryd camau ymarferol i leihau ein heffaith amgylcheddol a chefnogi lles pawb sy'n gweithio gyda ni. Mae'n bwysig bod y person sy'n ymuno â ni yn y swydd hon yn rhannu'r ymrwymiadau a'r gwerthoedd hyn.

Mae'r swydd hon yn gyfle cyffrous i ymuno â'r Adran Gynhyrchu mewn rôl allweddol sy'n cefnogi cyflwyno gwaith Theatr Cymru.

Crëwyd y swydd hon i ddarparu cefnogaeth ychwanegol yn ystod cyfnod mamolaeth y Rheolwr Cynhyrchu Cwmni, gan weithio'n agos gyda'r Pennaeth Cynhyrchu a chydweithwyr ar draws y cwmni.

Bydd y rôl yn cyfrannu at gydlynu a chyflwyno cynyrchiadau a gweithgareddau eraill, gan gynnig profiad gwerthfawr o weithio ar brosiectau theatr proffesiynol ar raddfa genedlaethol.

Mae hwn yn gyfle gwych i rywun sydd eisoes â rhywfaint o brofiad perthnasol ddatblygu ei ymarfer proffesiynol ymhellach, ehangu ei wybodaeth o brosesau cynhyrchu a magu hyder wrth weithio ar gynyrchiadau cymhleth gyda chefnogaeth tîm profiadol a chefnogol.

Os ydych yn frwdfrydig am theatr, yn drefnus ac yn rhagweithiol, ac yn mwynhau gweithio mewn amgylchedd cydweithredol a chyflym, byddem yn falch iawn o dderbyn eich cais.

Mae rhagor o wybodaeth am y swydd a Theatr Cymru i'w gweld yn y pecyn hwn. Os hoffech drafod unrhyw agwedd ar y rôl, neu os ydych yn teimlo bod unrhyw rwystrau'n eich atal rhag ymgeisio, cysylltwch â ni. Byddwn yn hapus i drafod sut y gallwn eich cefnogi drwy'r broses recriwtio.

*Angharad*

**Angharad Jones Leefe**
Cyfarwyddwr Gweithredol

*Steffan*

**Steffan Donnelly**
Cyfarwyddwr Artistig

# Y Cwmni



©Jorge Lizalde

Creu theatr Gymraeg fel man i ddod ynghyd, i gysylltu'r adnabyddus a'r annisgwyl, Cymreictod a'r byd, i drafod yn ddwys ac i godi'r galon.

Mae Theatr Cymru yn creu a chyflwyno cynyrchiadau theatr sy'n anelu at ddifyrru, cyffroi a swyno ein cynulleidfaoedd a thanio eu dychymyg. Rydym hefyd yn darparu cyfleoedd datblygu a fydd yn meithrin ac ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o artistiaid theatr Cymraeg, ac yn cynnig cyfleoedd creadigol i bobl ledled Cymru brofi effaith drawsnewidiol y celfyddydau.

Fel cwmni cenedlaethol, ry'n ni'n ceisio dangos arweinyddiaeth o fewn y sector, meithrin a datblygu talent, gwneud y mwyaf o gyfleoedd partneriaeth a chydweithio, datblygu a chynyddu cysylltiadau rhyngwladol, a chyrraedd y cynulleidfaoedd mwyaf eang posibl.

Mae dros ugain mlynedd ers sefydlu'r cwmni yn 2003 ac mae'r cwmni wedi ymgartrefu yng Nghaerfyrddin ers 2008. Penodwyd Cyfarwyddwr Artistig newydd – Steffan Donnelly – yn 2022, ac mae e ac Angharad Jones Leefe, y Cyfarwyddwr Gweithredol, yn Brif Weithredwyr ar y cyd.

Mae gan y cwmni 15 o staff cyflogedig ar gyfartaledd ond mae'r nifer yn amrywio ychydig yn ddibynnol ar gytundebau tymor penodol. Mae creu amgylchedd gwaith cadarnhaol a chynhyrchiol yn bwysig iawn i ni fel cwmni, ac rydym yn darparu cefnogaeth i'n staff fel eu bod nhw'n teimlo eu bod yn gallu cyflawni eu gwaith hyd orau eu gallu. Rydym yn cynnig ystod o opsiynau gweithio hyblyg, yn cynnwys cynllun oriau hyblyg, gweithio rhan amser a gweithio o gartref. Mae lles ein staff yn holl bwysig i ni, ac felly mae ystod o fesurau mewnol wedi eu cyflwyno i ddiogelu staff a cheisio sicrhau cydbwysedd iach rhwng bywyd a gwaith.

Creu a llwyfannu cynyrchiadau theatr yw prif swmp gwaith y cwmni ac mae rhaglen flynyddol fel arfer yn cynnwys tua 4 cynhyrchiad, gyda dau o'r rheini yn teithio yn genedlaethol. Mae'r cynyrchiadau yn amrywio ond maent fel arfer yn rhai graddfa ganolig neu fach.

Mae'r canolfannau ry'n ni'n ymweld â nhw'n rheolaidd yn cynnwys Theatr y Sherman yng Nghaerdydd, Ffwrnes yn Llanelli, Canolfan Celfyddydau Aberystwyth, Theatr Clwyd yn yr Wyddgrug, Galeri Caernarfon, a Pontio ym Mangor. Yn achlysurol, mae'r cwmni yn llwyfannu cynyrchiadau safle benodol, ac yn y gorffennol mae lleoliadau wedi cynnwys Castell Caerffili, Tomen y Mur ac Amgueddfa Sir Gâr yn Abergwili. Ry'n ni hefyd yn cyflwyno gwaith ar faes yr Eisteddfod Genedlaethol yn flynyddol.

Yn ogystal â chynyrchiadau, mae gan y cwmni raglen o weithgareddau sy'n cynnwys prosiectau ymchwil a datblygu artistig, a gweithgareddau cyfranogi, sy'n amrywio o weithdai i ysgolion, i brosiectau iechyd a lles.

Mae gweithwyr llawrydd yn rhan holl bwysig o ecoleg ein sector ac felly mae meithrin a chynnal perthynas effeithiol a chefnogol gyda gweithwyr llawrydd yn hanfodol i'n llwyddiant ni fel cwmni. Ry'n ni hefyd yn gweithio gydag ystod o gwmnïau a sefydliadau eraill er mwyn cyflawni ein gwaith. Mae'r rhain yn cynnwys cwmnïau cynhyrchu eraill; canolfannau perfformio; Mentrau Iaith; Urdd Gobaith Cymru; Llenyddiaeth Cymru; S4C; y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol; yr Eisteddfod Genedlaethol; CBAC; ysgolion a phrifysgolion; byrddau iechyd ac awdurdodau lleol; a mwy.

Mae ffocws clir gan y cwmni ar gynyddu cynhwysiant ein gweithgareddau, ac mae hyn yn treiddio drwy holl waith y cwmni – o sicrhau profiad hygyrch i gynulleidfaoedd amrywiol i gynnig cyfleoedd gwaith a chyfranogi sy'n apelio at ystod amrywiol o bobl, gan sicrhau eu bod wedi eu hyrwyddo mewn dulliau tryloyw ac agored.



©Jorge Lizalde

# Manylion y swydd

# Manylion y swydd

**Teitl:**
Rheolwr Cynhyrchu Cynorthwyol

**Cyflog:**
£31,500

**Cyfnod:**
12 mis o ddechrau mis Tachwedd 2026

**Oriau:**
Llawn amser (37.5 awr yr wythnos)

**Yn adrodd i'r:**
Pennaeth Cynhyrchu

**Lleoliad:**
Mae pencadlys y cwmni yng Nghaerfyrddin, ond ry'n ni'n cynnig amrywiaeth o drefniadau gweithio hyblyg, yn cynnwys trefniant gweithio hybrid sy'n golygu cyfuniad o weithio yn y swyddfa a gweithio o gartref. Does dim disgwyl i'r person yma fynychu'r swyddfa bob dydd. Byddai'r union drefniant yn cael ei drafod a'i gytuno gyda'r ymgeisydd llwyddiannus.

**Hawl i Wyliau Blynyddol:**
25 diwrnod + gwyliau banc + 2 ddiwrnod o wyliau cwmni adeg y Nadolig

**Meysydd cyfrifoldeb:**
- Cynhyrchu
- Iechyd a Diogelwch
- Ariannol
- Adeiladau ac Adnoddau

Ceir rhagor o wybodaeth am y cyfrifoldebau a'r dyletswyddau yn ymwneud â'r penawdau uchod ar y dudalen Dyletswyddau.

**Iaith:**
Cymraeg yw iaith gweinyddu'r cwmni'n fewnol, felly mae gofyn bod y person sy'n gwneud y swydd hon yn gallu cyfathrebu'n effeithiol yn y Gymraeg ar lafar ac yn ysgrifenedig. Serch hynny, ry'n ni'n cydnabod bod hynny'n aml yn fater o arfer ac felly byddem yn hapus i gefnogi pobl sydd wedi colli hyder yn eu Cymraeg drwy roi cyfleoedd i fynychu hyfforddiant gloywi iaith.






# Am beth ry'n ni'n edrych?

**Ry'n ni'n chwilio am Reolwr Cynhyrchu Cynorthwyol i gefnogi'r Pennaeth Cynhyrchu i sicrhau fod cynyrchiadau'r cwmni o safon cynhyrchu uchel a bod yr Adran Gynhyrchu yn cefnogi gweithgareddau eraill y cwmni.**

**Bydd gan yr ymgeisydd llwyddiannus y rhinweddau neu'r profiad canlynol;**

- Diddordeb amlwg mewn theatr
- Dealltwriaeth o agweddau technegol cynyrchiadau
- Ymwybyddiaeth dda o arferion Iechyd a Diogelwch cyfredol
- Profiad o weithio gyda staff creadigol llawrydd, staff cynhyrchu a rheolwyr llwyfan
- Profiad proffesiynol mewn cynhyrchu theatr, rheoli llwyfan neu reoli technegol
- Y gallu i weithio'n effeithiol fel rhan o dîm ac i feithrin perthnasoedd gwaith cadarnhaol
- Y gallu a pharodrwydd i weithio oriau anghymdeithasol gan gynnwys gyda'r nos, penwythnosau a gwyliau cyhoeddus os oes angen
- Y gallu a'r parodrwydd i deithio gyda chynyrchiadau'r cwmni yn ôl yr angen
- Y gallu i weithio'n dda o fewn terfynau amser ac i reoli nifer o dasgau ar yr un pryd
- Sgiliau trefnu a chydlynu rhagorol
- Y gallu i flaenoriaethu gwaith ac addasu i amgylchiadau sy'n newid
- Sgiliau cyfathrebu da, yn ysgrifenedig ac ar lafar, yn Gymraeg a Saesneg
- Sgiliau rhifedd da a phrofiad o fonitro gwariant neu gyllidebau
- Ymrwymiad i gynhwysiant a dealltwriaeth o gynhwysiant a hygyrchedd
- Trwydded yrru lawn gyfredol

**Yn ddelfrydol, bydd hefyd gan yr ymgeisydd y rhinweddau, sgiliau a'r profiad canlynol:**

- Profiad o weithio ar gynyrchiadau sy'n teithio
- Profiad o gydlynu neu gefnogi prosesau cynhyrchu ar brosiectau theatr neu ddigwyddiadau byw
- Cymhwyster mewn Rheoli Cynhyrchu, Rheoli Llwyfan, Theatr Dechnegol neu faes perthnasol
- Cymhwyster perthnasol mewn Iechyd a Diogelwch
- Cymhwyster Cymorth Cyntaf
- Gwybodaeth am arferion gwaith cynaliadwy ac amgylcheddol gyfrifol
- Dealltwriaeth o gontractau a gweithdrefnau perthnasol yn y sector theatr

## Hyfforddiant

**Os nad oes gennych gymwysterau Iechyd a Diogelwch a Chymorth Cyntaf, fe fydd y cwmni yn trefnu hyfforddiant priodol ar eich cyfer, yn cynnwys:**

- Iechyd a Diogelwch – Rheoli'n Ddiogel
- Iechyd a Diogelwch – Asesu Risg
- Cymorth Cyntaf yn y gweithle

Mae'r cwmni hefyd yn barod i gefnogi datblygiad proffesiynol staff, yn cynnwys hyfforddiant pellach a chymwysterau ffurfiol. Trafodir hyn gyda'r ymgeisydd llwyddiannus.







# Dyletswyddau

## Cynhyrchu

- Gweithio gyda'r Pennaeth Cynhyrchu a Chynhyrchwyr i gefnogi'r gwaith o gynllunio a darparu cynyrchiadau'r cwmni mewn modd amserol ac effeithiol.
- Cynorthwyo gyda chydlynu elfennau technegol a chynhyrchu cynyrchiadau'r cwmni, gan gefnogi'r Pennaeth Cynhyrchu i sicrhau eu bod yn addas i'r diben ac yn cyflawni safonau cynhyrchu uchel.
- Gweithredu fel pwynt cyswllt dydd-i-ddydd ar gyfer rhai materion cynhyrchu, gan sicrhau cyfathrebu effeithiol rhwng timau technegol, creadigol a gweinyddol.
- Cynnal cyfathrebu rhagorol gyda chynhyrchwyr, staff technegol, artistiaid a gweithwyr llawrydd drwy gydol y broses gynhyrchu.
- Cefnogi'r gwaith o reoli cylch bywyd elfennau cynhyrchu corfforol, gan hyrwyddo arferion cynaliadwy lle bynnag y bo modd.
- Paratoi a diweddaru amserlenni cynhyrchu a dogfennau cysylltiedig dan arweiniad y Pennaeth Cynhyrchu.
- Mynychu ffitiau cychwynnol, ymarferion technegol, ymarferion gwisg a rhagddangosiadau yn ôl yr angen, gan gofnodi a dilyn i fyny ar nodiadau cynhyrchu.
- Mynd ar daith gyda chynyrchiadau'r cwmni yn ôl yr angen, gan gefnogi'r gwaith o fonitro a datrys materion cynhyrchu a gweithredu fel cyswllt rhwng y cwmni a'r tîm ar y safle.
- Trefnu a chofnodi cyfarfodydd cynhyrchu a sicrhau bod gwybodaeth a phenderfyniadau perthnasol yn cael eu rhannu â'r bobl briodol.
- Cynorthwyo gyda chasglu gwybodaeth dechnegol am leoliadau a chefnogi ymweliadau recce pan fo angen.
- Cefnogi trefniadau logisteg ar gyfer teithio cynyrchiadau, gan gynnwys cludiant, llety a chludo offer.
- Sicrhau bod gwybodaeth a dogfennau technegol yn cael eu dosbarthu i leoliadau a phartneriaid mewn da bryd.
- Datblygu dealltwriaeth o gontractau UK Theatre/Equity a BECTU a helpu i weithredu'r trefniadau perthnasol.
- Ar ddiwedd prosiectau, cefnogi'r gwaith o ddychwelyd, storio neu ailgylchu elfennau cynhyrchu.
- Darparu cymorth cynhyrchu i weithgareddau eraill y cwmni, gan gynnwys gweithgareddau cyfranogi a phrosiectau ymchwil a datblygu.

## Iechyd a Diogelwch

**Cefnogi'r gwaith o weithredu strategaeth codi arian y cwmni.**

- Archwilio a mewnbynnu i'r broses greadigol wrth ymgeisio am geisiadau grant.
- Adnabod ffynonellau incwm a phartneriaid ar gyfer y gwaith.

## Cynhwysiant

**Cefnogi'r gwaith o sicrhau cynhwysiant, amrywiaeth a chynrychiolaeth ar draws rhaglen waith y cwmni, boed hynny'n artistiaid, themâu neu ymgyfranogwyr.**

- Cefnogi'r Pennaeth Cynhyrchu i gynnal amgylchedd gweithio diogel ac iach ar gyfer cynyrchiadau a gweithgareddau'r cwmni.
- Helpu i sicrhau bod pawb sy'n gweithio ar gynyrchiadau yn ymwybodol o bolisïau a gweithdrefnau iechyd a diogelwch perthnasol.
- Cynorthwyo gyda pharatoi a diweddaru asesiadau risg a monitro'r camau gweithredu sy'n deillio ohonynt.
- Cefnogi'r gwaith o sicrhau bod cynyrchiadau'n cydymffurfio â gofynion trwyddedu a rheoliadau perthnasol.
- Cynorthwyo'r Pennaeth Cynhyrchu gyda gofynion Rheoliadau Adeiladu Dylunio a Rheoli (CDM) a chyda threfnu sgyrsiau blwch offer lle bo angen.
- Helpu i gynnal cofnodion o brofion a gwiriadau offer perthnasol.

## Ariannol

- Cefnogi'r Pennaeth Cynhyrchu gyda monitro a chysoni cyllidebau cynhyrchu.
- Prosesu archebion, anfonebau a chofnodion gwariant cynhyrchu yn unol â gweithdrefnau'r cwmni.
- Monitro gwariant yn erbyn cyllidebau a rhoi gwybod am unrhyw amrywiadau i'r Pennaeth Cynhyrchu.
- Helpu i sicrhau gwerth da am arian wrth gaffael nwyddau a gwasanaethau.
- Cydweithio gyda'r Rheolwr Llwyfan i oruchwylio taliadau goramser i'r tîm cynhyrchu ar gynyrchiadau, a sicrhau bod gwariant o fewn y gyllideb.

## Adeiladau ac Asedau

- Helpu i sicrhau bod elfennau cynhyrchu sy'n cael eu dychwelyd i stordy'r cwmni yn cael eu storio'n ddiogel ac mewn modd trefnus.
- Cynorthwyo'r Pennaeth Cynhyrchu gyda chyfrifiadau stoc a chynnal cofnodion asedau perthnasol.

## Cyffredinol

- Gweithio'n effeithiol gyda systemau gweithredol Theatr Cymru a chyfrannu at wella'r systemau hynny lle bo hynny'n briodol.
- Cynnal perthynas waith dda gyda phartneriaid, cyd-gynhyrchwyr a rhanddeiliaid eraill.
- Manteisio ar gyfleoedd i ddatblygu sgiliau a gwybodaeth ym maes rheoli cynhyrchu, rheoli llwyfan a gwaith technegol.

# I wneud cais:

- Llenwch y ffurflen gais.

**NEU**

- Cyflwynwch fideo byr ohonoch chi'ch hun, gan ateb y cwestiynau a nodir ar y ffurflen gais.

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am y swydd, os oes angen unrhyw gymorth arnoch i gyflwyno cais, neu os hoffech gael fformat gwahanol, cysylltwch â ni'n uniongyrchol drwy e-bostio **angharad.leefe@theatr.com** neu ffonio **07903 842554**.

Mae Theatr Cymru yn defnyddio'r model cymdeithasol o anabledd, gan gydnabod bod rhai pobl yn profi rhwystrau sy'n anablu. Byddwn yn cyfweld unrhyw ymgeisydd anabl sy'n bodloni meini prawf y swydd, ac rydym wedi ymrwymo i gefnogi unrhyw ofynion mynediad mewn cyfweliad, neu wedi hynny os bydd yr ymgeisydd yn cael eu penodi.

Rhaid i bob ymgeisydd lenwi Ffurflen Monitro Cyfle Cyfartal.

# Mynediad / Cefnogaeth

Bydd yr holl offer technoleg gwybodaeth sy'n ofynnol ar gyfer y swydd yn cael ei ddarparu gan Theatr Cymru, gan gynnwys unrhyw offer sydd ei angen i hwyluso gweithio o gartref. Mae ein swyddfeydd yng Nghaerfyrddin yn gwbl hygyrch ar gyfer mynediad i gadeiriau olwyn.

Gall Theatr Cymru gefnogi deiliad y swydd gyda chais Mynediad i Waith er mwyn sicrhau cefnogaeth yn seiliedig ar eich anghenion. Gallai hyn gynnwys grant i helpu talu costau cymorth ymarferol yn y gweithle neu gartref, cymorth i deithio i'r gwaith ac yn ôl, gwasanaethau gweithiwr cymorth a/neu gymorth iechyd meddwl.

Am ragor o wybodaeth, ewch i **https://www.gov.uk/mynediad-at-waith**

Mae Theatr Cymru yn agored i drafod unrhyw gymorth/adnoddau ychwanegol y gallai fod eu hangen arnoch yn ystod y broses ymgeisio, neu ar ôl recriwtio i'r swydd, i'ch galluogi i wneud eich gwaith gorau. Ni fydd hyn yn effeithio ar ba mor gymwys ydych chi ar gyfer y swydd nac ar gryfder eich cais. I gael sgwrs anffurfiol am gymorth ychwanegol, cysylltwch ag Angharad Leefe drwy e-bostio **angharad.leefe@theatr.com** neu ffonio **07903 842554**.

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

Rhif cofrestru cwmni / Company registration number: 4784488

THEATR CYMRU